# Rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos (VSPs)

Ein cynllun a'n dull gweithredu diweddaraf

**Adroddiad ar Lwyfannau Rhannu Fideos**

Cyhoeddwyd 25 Ionawr 2024

# Cynnwys

## Adran


Trosolwg ... 3

Sut rydyn ni wedi rheoleiddio VSPs ... 6

Ein blaenoriaethau VSP diweddaraf ... 16


## Atodiad


A1 Cefndir ... 22

A2 Cymharu’r dref VSP a’r drefn diogelwch ar-lein ... 25

# Trosolwg

Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig (DU), ac mae'n goruchwylio sectorau sy'n cynnwys telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, y tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio, y post a darllediadau radio a theledu. Rydyn ni wedi rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos (VSPs) ers mis Tachwedd 2020 a chawsom ein penodi'n ffurfiol fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein ym mis Hydref 2023.

Daeth y drefn VSP i rym ym mis Tachwedd 2020, ac ym mis Hydref 2021 lansiodd Ofcom ein Canllawiau i lwyfannau rhannu fideos ar gyfer darparwyr a'n Cynllun a'n Dull Gweithredu. Yn ystod ein blwyddyn gyntaf, gwelsom fod gan bob VSP rai mesurau i ddiogelu defnyddwyr, ond bod lle i wella. Ers hynny, rydyn ni wedi edrych yn ehangach ar y ffordd mae llwyfannau'n gosod, yn gorfodi ac yn profi eu dull o ddiogelu defnyddwyr – gan gynnwys edrych ar bolisïau VSPs i ddefnyddwyr a sut mae VSPs yn diogelu plant rhag niwed.

**Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein dull o reoleiddio VSPs hyd yma. Rydyn ni hefyd wedi nodi ein blaenoriaethau ar gyfer gweddill y cyfnod pan fydd y drefn VSP ar waith – cyn i'r drefn diogelwch ar-lein ei disodli.**

## Rydyn ni wedi canolbwyntio ar wella'r mesurau i ddiogelu defnyddwyr

Mae'r drefn VSP yn mynnu bod darparwyr VSP yn gweithredu mesurau diogelu priodol i ddiogelu defnyddwyr rhag mathau penodol o fideos niweidiol a/neu anghyfreithlon ar-lein. Mae'r ddeddfwriaeth VSP yn rhestru rhai mesurau y gall darparwyr VSP eu defnyddio, gan gynnwys:

- cael – a gweithredu'n effeithiol – **telerau gwasanaeth** clir a chynhwysfawr,
- cael swyddogaethau effeithiol a hawdd eu defnyddio i **ddefnyddwyr adrodd, fflagio a chwyno**,
- defnyddio mesurau rheoli mynediad priodol i ddiogelu plant, fel mesurau **sicrhau oedran** a/neu **fesurau rheolaeth gan rieni**.

Caiff darparwyr VSP benderfynu pa fesurau diogelwch maen nhw'n eu defnyddio, ond *rhaid* iddynt sicrhau bod y mesurau hyn yn gweithio'n dda yn ymarferol i ddiogelu defnyddwyr. Mae ein Canllawiau i lwyfannau rhannu fideos yn esbonio hyn yn fanylach. Rôl Ofcom fel rheoleiddiwr VSP yw sicrhau bod gwasanaethau'n cyflawni eu dyletswydd i ddiogelu defnyddwyr. Rydyn ni'n asesu effeithiolrwydd mesurau diogelwch sy'n cael eu defnyddio gan VSPs ac yn ystyried a ydynt – yn ymarferol – yn gweithio'n effeithiol i ddiogelu defnyddwyr. Pan fyddwn yn dod o hyd i bryderon, awn ar drywydd gwelliannau.

Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr VSP ddileu cynnwys niweidiol neu anghyfreithlon yn llwyr. Yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar sicrhau bod eu mesurau diogelwch yn gweithio i gael gwared ar gymaint o gynnwys niweidiol neu anghyfreithlon â phosibl – a chyn gynted â phosibl. Yn ei dro, nid ydym yn dyfarnu ar ddarnau unigol o gynnwys, ac yn lle hynny rydyn ni'n canolbwyntio ar fynd i galon unrhyw risgiau diogelwch ar-lein. Pan fyddwn yn dod o hyd iddynt, ein nod yn y pen draw yw gwella mesurau diogelwch llwyfannau i ddiogelu defnyddwyr y DU rhag niwed.

## Rydyn ni wedi defnyddio cymysgedd o adnoddau rheoleiddio i sbarduno newid cadarnhaol

Ers i'r drefn VSP ddod i rym, rydyn ni wedi defnyddio ein hystod o adnoddau rheoleiddio i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol ym mesurau diogelwch VSPs. Nid yw'r adnoddau hyn o reidrwydd yn annibynnol ar ei gilydd ac yn aml maen nhw'n cael eu defnyddio ar y cyd â'i gilydd i

sicrhau'r canlyniad gorau. Dyma rai uchafbwyntiau:

- **Goruchwylio**: Mae goruchwyliaeth yn golygu meithrin perthynas gynhyrchiol â'n llwyfannau hysbysedig drwy ymgysylltu'n rheolaidd. Rydyn ni'n defnyddio goruchwyliaeth i ddysgu am fesurau diogelwch, i achub y blaen ar risgiau i ddefnyddwyr, ac i wthio am welliannau i ddiogelwch defnyddwyr. Er enghraifft, rydyn ni wedi gweithio gydag OnlyFans i sicrhau newidiadau i'w swyddogaethau adrodd er mwyn gallu blaenoriaethu niwed difrifol yn gyflym. Y llynedd, gwnaeth OnlyFans hefyd gyflwyno mesurau ychwanegol i ddilysu oedran tanysgrifwyr yn y DU mewn ymateb i waith rheoleiddio VSPs.
- **Gorfodi**: Mae gennym adnoddau eang ar gael i ni i gymryd camau gorfodi lle mae gennym bryderon ynghylch cydymffurfio, er mwyn dal llwyfannau i gyfrif a chywiro ymddygiad gwael. Er enghraifft, rydyn ni wedi cwblhau ymchwiliad i fethiant Tapnet i ddarparu gwybodaeth yn ôl yr angen ac wedi agor ymchwiliadau pellach. Rydyn ni hefyd wedi defnyddio adnoddau cydymffurfio eraill i ymateb i bryderon. Er enghraifft, mae ein rhaglen orfodi ar draws y sector ar gyfer mesurau sicrhau oedran ar VSPs i oedolion wedi arwain at welliannau cadarnhaol amlwg, gan gynnwys cyflwyno mesurau sicrhau oedran ar y llwyfannau i oedolion RevealMe ac AdmireMe. Gwnaethom hefyd sicrhau ymrwymiadau pwysig gan BitChute i wella ei fesurau diogelwch.
- **Tryloywder:** Gallwn gyhoeddi adroddiadau am y mesurau sy'n cael eu cymryd gan lwyfannau a sut maen nhw wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag fideos sy'n cynnwys deunydd niweidiol. Mae cyhoeddi adroddiadau ar VSPs yn ein helpu i rymuso'r cyhoedd, i ddal llwyfannau'n atebol, ac i sbarduno gwelliannau drwy ddangos arferion da yn y diwydiant. Er enghraifft, roedd ein hadroddiad ar bolisïau defnyddwyr wedi arwain at ymrwymiadau cadarnhaol gan VSPs i wella eu telerau ac amodau, a'u gwneud yn haws eu darllen a'u deall (byddwn yn gwneud rhagor o waith ar hyn).

Yn ogystal â defnyddio'r adnoddau rheoleiddio uchod, rydyn ni wedi ymgysylltu'n helaeth ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys gyda chymdeithas sifil, rhwydweithiau byd-eang, a rheoleiddwyr VSPs eraill yn yr UE.

### Rydyn ni wedi pennu ein blaenoriaethau mawr ar gyfer gweddill y drefn VSP

Rydyn ni wedi cael pedwar nod cyffredinol ers dechrau'r drefn VSP: **codi safonau, mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio, cynyddu tryloywder, a pharatoi ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein yn y dyfodol**. Bydd y rhain yn aros yn gyson drwy weddill y drefn VSP. Gan ystyried yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu hyd yma a'r meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf, rydyn ni wedi nodi ein blaenoriaethau mawr ar gyfer gweddill y drefn VSP. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau:

1. **bod polisïau defnyddwyr clir ar waith sy'n hawdd eu canfod a'u deall,**
2. **bod fideos terfysgol neu fideos sy'n ysgogi casineb a/neu drais yn cael eu tynnu i lawr yn gyflym,**
3. **bod camdrinwyr plant yn cael eu hatal rhag rhannu a/neu wylio fideos cam-drin plant yn rhywiol,**
4. **bod plant yn cael eu hatal rhag dod o hyd i fideos pornograffig a'u gwylio ar lwyfannau i oedolion,**
5. **bod plant yn cael eu hatal rhag dod o hyd i fideos eraill sy'n amhriodol i'w hoedran a'u gwylio,**
6. **bod pob defnyddiwr yn gallu cael mynediad at adnoddau effeithiol a hawdd eu defnyddio i roi gwybod am gynnwys neu i gyflwyno cwynion.**

O fewn y blaenoriaethau hyn, rydyn ni’n disgwyl canolbwyntio’n bennaf ar feysydd a fydd yn dal yn berthnasol o dan y drefn diogelwch ar-lein ehangach. Wedi dweud hynny, mae’r drefn VSP yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom – mae’n caniatáu i ni wella diogelwch i ddefnyddwyr VSP cyn i’r drefn diogelwch ar-lein ddod i rym yn llawn.

## Bydd y drefn diogelwch ar-lein yn disodli’r drefn VSP yn y pen draw

Mae’r drefn VSP wedi bod – ac mae’n parhau i fod – yn brawf effeithiol ar gyfer sut mae rheoleiddio diogelwch ar-lein yn gweithio’n ymarferol ac mae’n allweddol i’n helpu i baratoi ar gyfer y **drefn diogelwch ar-lein** newydd. Cafodd Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 Gydsyniad Brenhinol ym mis Hydref 2023. Fodd bynnag, mae’r drefn VSP yn dal yn drefn reoleiddio fyw nes bydd Llywodraeth y DU yn diddymu’r ddeddfwriaeth VSP. Byddwn yn cefnogi llwyfannau sy’n cael eu rheoleiddio o dan y drefn VSP yn ystod y cyfnod pontio o’r drefn VSP i’r drefn diogelwch ar-lein.

# Sut rydyn ni wedi rheoleiddio VSPs

Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae'r drefn VSP yn gweithio a sut rydyn ni wedi mynd ati i reoleiddio VSPs i sicrhau bod eu mesurau diogelwch yn gweithredu i ddiogelu defnyddwyr yn effeithiol rhag deunydd niweidiol.

## Mae'r drefn VSP yn canolbwyntio ar wella mesurau diogelwch, nid ar asesu cynnwys

### Mae Ofcom wedi rheoleiddio VSPs yn y DU ers mis Tachwedd 2020

Mae'r drefn VSP wedi'i hamlinellu yn Rhan 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Daeth y gofynion ar gyfer llwyfannau i rym ym mis Tachwedd 2020. Ar yr un pryd, penodwyd Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer VSPs sydd â'r cysylltiad gofynnol â'r DU.

Yn gryno, mae'n rhaid i ddarparwyr VSP weithredu mesurau diogelwch priodol i ddiogelu defnyddwyr rhag fideos â chynnwys niweidiol. Gallwch ddarllen mwy am y gofynion rheoleiddio, y deunydd niweidiol sydd o fewn cwmpas y drefn VSP, a'r mesurau y mae'n rhaid i VSPs ystyried eu rhoi ar waith yn y Canllawiau i VSPs.

**Mae rhagor o fanylion ar gefndir y drefn VSP ar gael ar yn Atodiad 1.**

### Mae rheoleiddio ar-lein y DU yn canolbwyntio ar fesurau diogelwch llwyfannau

Mae'r drefn VSP – a'r drefn diogelwch ar-lein ehangach[1] – yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan lwyfannau ar-lein fesurau diogelwch effeithiol ar waith i ddiogelu eu defnyddwyr rhag niwed.

Mae'r ymadrodd 'mesurau diogelwch' yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau y mae gwasanaethau'n eu defnyddio i gadw defnyddwyr yn ddiogel. Er enghraifft, mae **adrodd gan ddefnyddwyr** yn broses lle gall defnyddwyr fflagio mathau penodol o gynnwys niweidiol ar lwyfan, sydd wedyn yn gallu helpu llwyfannau i flaenoriaethu adolygiad o'r cynnwys sy'n achosi'r niwed mwyaf. Enghraifft arall yw **cymedroli cynnwys**[2], lle mae llwyfannau'n adolygu cynnwys a allai fod yn niweidiol (yn aml drwy gyfuniad o gymedrolwyr dynol a thechnoleg) ac yn tynnu cynnwys sy'n torri eu canllawiau cymunedol i lawr.

O dan y ddwy drefn diogelwch ar-lein yn y DU, nid oes rhaid i lwyfannau ystyried a yw darnau unigol o gynnwys yn briodol neu'n cael eu caniatáu ar eu llwyfan. Mae'n debyg y byddai'r math hwn o reoleiddio ar sail cynnwys yn anymarferol oherwydd maint y cynnwys ar-lein sy'n cael ei rannu bob dydd. Drwy ganolbwyntio ar effeithiolrwydd ac effaith ehangach eu mesurau a'u prosesau diogelwch, gall llwyfannau sicrhau newid systemig ehangach a rhagor o ddiogelwch i ddefnyddwyr.

---

[1] Gweler: Ymagwedd at weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein
[2] Yn ddiweddar mae Ofcom wedi cyhoeddi adroddiad ar arferion cymedroli cynnwys o fewn gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr.

Er enghraifft, sicrhau bod ganddynt y systemau a’r adnoddau cywir ar waith i ddelio ag adroddiadau gan ddefnyddwyr yn gyflym ac yn effeithiol.

### Ein rôl ni yw gwella mesurau diogelwch llwyfannau

Ein rôl ni fel rheoleiddiwr VSPs, ac erbyn hyn fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, yw sicrhau bod gwasanaethau’n cyflawni eu dyletswyddau i ddiogelu’r cyhoedd rhag cynnwys niweidiol ar-lein.[3] Rhaid i ni gydbwyso hyn â sicrhau bod ein dulliau rheoleiddio yn cynnal pwysigrwydd hawliau sylfaenol, yn enwedig yr hawliau i fynegiant rhydd a phreifatrwydd.[4]

Gan fod rheoleiddio ar-lein yn y DU wedi cael ei sefydlu mewn deddfwriaeth, mae rôl Ofcom fel rheoleiddiwr ar-lein yn canolbwyntio ar fynd i’r afael ag achosion sylfaenol cynnwys ar-lein anghyfreithlon a niweidiol, drwy ystyried effeithiolrwydd mesurau diogelwch llwyfannau. Nid oes gennym unrhyw bwerau penodol i reoleiddio darnau unigol o gynnwys.

Felly, rydyn ni’n canolbwyntio ar asesu effeithiolrwydd mesurau diogelwch gwasanaethau a phwyso am newidiadau cadarnhaol i ddiogelu defnyddwyr ymhellach. Drwy geisio gwella mesurau diogelwch gwasanaethau, byddwn yn lleihau’r risg ar raddfa fawr, yn hytrach na chanolbwyntio ar achosion unigol o gynnwys niweidiol. Mae hyn yn cefnogi dull cymesur sy’n seiliedig ar dystiolaeth o reoleiddio ar-lein ac yn osgoi unrhyw effaith anfwriadol ganlyniadol ar hawl defnyddwyr i ryddid mynegiant.

Mae ein profiad o reoleiddio cynnwys VSP yn parhau i’n helpu i baratoi ar gyfer ein cyfrifoldebau ehangach ychwanegol o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Credwn fod rheoleiddio VSP yn gyfle i VSPs newid er mwyn gwreiddio ymddiriedaeth a diogelwch yn nyluniad eu gwasanaeth o’r cychwyn cyntaf, a fydd yn eu paratoi ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein.

**Mae’r adran isod yn egluro mwy am sut mae rheoleiddio wedi gweithio o dan y drefn VSP**, gan gynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos i ddangos ein dull gweithredu.

## Sut rydyn ni’n gwella mesurau diogelwch VSPs

Ar ddechrau’r drefn VSP ym mis Hydref 2021, roeddem wedi nodi dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio darparwyr VSP a’r cynllun gwaith cychwynnol yn ein dogfen Cynllun a Dull Gweithredu. Roedd y ddogfen yn amlinellu pedwar nod cyffredinol: **codi safonau, mynd i’r afael â diffyg cydymffurfio, gwella tryloywder, a pharatoi’r diwydiant a ni ein hunain ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein yn y dyfodol.**

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf o reoleiddio, fe wnaethom weithio i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol gynhwysfawr am y sector VSP, a arweiniodd at gyhoeddi ein hadroddiad ar y flwyddyn lawn gyntaf o reoleiddio VSPs. Mae’r ddogfen hon yn nodi ein canfyddiadau o flwyddyn lawn gyntaf Ofcom o reoleiddio VSPs. Mae hefyd yn amlinellu ein nod i edrych yn fwy eang ar sut mae llwyfannau’n gosod, yn gorfodi ac yn profi eu dull gweithredu o ran diogelwch defnyddwyr, gan ganolbwyntio’n benodol ar y canlynol:

- sicrhau bod llwyfannau rhannu fideos wedi rhoi prosesau digonol ar waith ar gyfer pennu ac adolygu telerau ac amodau cynhwysfawr (a elwir fel arfer yn Ganllawiau Cymunedol) sy’n rhoi sylw i bob niwed perthnasol,

[3] Wrth arfer ein swyddogaethau o dan y ddwy drefn, mae gennym hefyd ddyletswydd gyffredinol i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.
[4] Fel corff cyhoeddus, rhaid i Ofcom weithredu’n gyson â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

- gwneud yn siŵr bod llwyfannau rhannu fideos yn defnyddio ac yn gorfodi eu Canllawiau Cymunedol yn gyson ac yn effeithiol, er mwyn mynd i'r afael â chynnwys niweidiol yn ymarferol,
- adolygu'r adnoddau y mae llwyfannau rhannu fideos yn eu darparu er mwyn galluogi defnyddwyr i reoli eu profiad, a hybu rhagor o ddefnydd o'r mesurau hyn,
- sbarduno'r gwaith o roi mesurau sicrhau oedran cadarn ar waith er mwyn diogelu plant rhag y cynnwys ar-lein mwyaf niweidiol (gan gynnwys pornograffi).

I fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn, rydyn ni wedi defnyddio ystod eang o'n dulliau rheoleiddio i bwyso am ddiogelwch gwell i ddefnyddwyr VSPs – gan gynnwys polisïau, goruchwylio, gorfodi, tryloywder ac ymgysylltu rhyngwladol. Rydyn ni'n trafod y rhain ymhellach isod.

## Sut rydyn ni wedi defnyddio ein hadnoddau rheoleiddio

Mae ein holl weithgarwch rheoleiddio yn canolbwyntio ar wella mesurau diogelwch VSPs i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu. Gellir ei rannu'n fras yn bedair swyddogaeth – **datblygu polisi, goruchwylio, gorfodi, a thryloywder**.

Wrth redeg y drefn VSP, rydyn ni'n casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, sydd wedyn yn cael eu brysbennu a'u dadansoddi, ac yn ein helpu i greu darlun o bryderon posibl ynghylch cydymffurfio. Rydyn ni'n delio â'r materion hyn sy'n dod i'n sylw yn effeithiol, yn brydlon ac yn gymesur drwy ein hadnoddau rheoleiddio i sicrhau bod VSPs yn defnyddio mesurau priodol i ddiogelu eu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.


Rydyn ni'n disgrifio ein pedair swyddogaeth graidd yn fanylach isod:

datblygu polisi i gwblhau dadansoddiad ar draws un neu ragor o VSPs i ddeall niwed a mesurau diogelwch yn well, a sefydlu beth sy'n arfer da neu wael,

goruchwyliaeth i feithrin perthynas effeithiol, ddibynadwy a phwyso am newidiadau mewn gwasanaethau i ddeall, asesu a gwella eu mesurau diogelu,

camau gorfodi i sicrhau canlyniadau gwell wedi'u targedu, i ddal gwasanaethau i gyfrif, ac i gymell cydymffurfiaeth ehangach,

tryloywder i daflu goleuni ar arferion da neu wael, i rymuso defnyddwyr i ddewis gwasanaethau mwy diogel, ac i sicrhau safonau uwch.




Nid yw'r adnoddau hyn o reidrwydd yn annibynnol ar ei gilydd ac yn aml rydyn ni'n eu defnyddio ar y cyd â'i gilydd. Yn yr adran ganlynol, rydyn ni'n nodi nifer o astudiaethau achos o'n profiad o reoleiddio VSPs, gan dynnu sylw at sut mae ein gwaith wedi cymell llwyfannau i wneud newidiadau i'w systemau a'u prosesau i wella diogelwch defnyddwyr.

Yn ogystal â'r adnoddau hyn, rydyn ni'n ymgysylltu'n helaeth ag amrywiaeth eang o randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys ein cymheiriaid rhyngwladol.

## Datblygu polisi

Mae datblygu a dadansoddi polisïau'n effeithiol yn sail i'n holl weithgareddau rheoleiddio. Rydyn ni'n datblygu polisi i sefydlu natur gwasanaethau ac i ddeall mesurau diogelwch gwahanol lwyfannau a'r risg o niwed, ac yn cynnal dadansoddiad ar draws VSPs i helpu i nodi'r hyn a allai fod yn arfer da neu wael. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ein gweithgareddau goruchwylio a thryloywder, yn ogystal â nodi materion cydymffurfio posibl y gellir eu trosglwyddo i'n tîm gorfodi.

Mae ein gwaith datblygu polisi yn aml yn cynnwys ystyried gwybodaeth o ffynonellau gan gynnwys ymatebion i geisiadau am wybodaeth, ymchwil bwrdd gwaith, dadansoddi data cwynion VSPs, a sganio'r gorwel. Yn gyffredinol, nid ydym yn asesu darnau unigol o gynnwys.[5] Yn hytrach, rydyn ni'n canolbwyntio ar yr hyn mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn ei ddweud wrthym am y mesurau sydd wedi cael eu cymryd a'u heffeithiolrwydd.

Yn bwysig, byddwn yn dadansoddi'r wybodaeth a ddaw i law i ystyried beth sy'n enghreifftiau o arferion da a gwael o ran mesurau diogelwch VSPs – a pha gamau y gallai fod angen eu cymryd i sicrhau canlyniadau gwell. Er enghraifft, y llynedd, gwnaethom anfon ceisiadau am wybodaeth am fesurau diogelwch VSPs (gan gynnwys polisïau defnyddwyr a mesurau diogelwch plant), ac mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chynnwys yn ein hadroddiadau tryloywder VSPs a gyhoeddwyd yn ddiweddar (sy'n cael eu disgrifio isod).

Mae asesu effeithiolrwydd mesurau yn rhan bwysig o'n gwaith, ac rydyn ni'n parhau i ddysgu pa fetrigau a mesurau sy'n ddefnyddiol yn hyn o beth. Er enghraifft, mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yn Fforwm Economaidd y Byd yn ceisio asesu sut dylai llwyfannau fynd i'r afael â risgiau diogelwch digidol a mesur effaith eu hymyriadau.

Yn ei gyfanrwydd, mae datblygu polisi yn cynrychioli cyfres eang o weithgareddau sy'n ein galluogi i ddeall yn well y llwyfannau rydyn ni'n eu rheoleiddio a beth sydd angen ei wella yn eu systemau a'u prosesau i fynd i'r afael â niwed i ddefnyddwyr.

## Goruchwyliaeth

Mae'r term 'goruchwyliaeth' yn disgrifio cyfres o weithgareddau rydyn ni'n eu gwneud i reoli perthynas Ofcom â gwasanaethau er mwyn deall a lliniaru risgiau yn y dyfodol, a sicrhau gwelliannau i fesurau diogelwch VSPs. Mae hyn yn cynnwys meithrin perthynas gynhyrchiol, ddibynadwy drwy ymgysylltu'n rheolaidd. Yn unol â'n dull gweithredu a ddisgrifir uchod, mae ein gweithgarwch goruchwylio yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd mesurau diogelwch VSPs o ran diogelu eu defnyddwyr, nid ar ddarnau unigol o gynnwys.

Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu ein dull goruchwylio dros y flwyddyn ddiwethaf o fewn y drefn VSP, cyn ein dyletswyddau fel rhan o'r drefn diogelwch ar-lein. Yn gyffredinol, mae goruchwyliaeth yn cynnwys ymgysylltu'n rhagweithiol â gwasanaethau blaenoriaeth, ac ymgysylltu'n adweithiol â gwasanaethau eraill yn ôl yr angen. O dan y drefn VSP, rydyn ni'n canolbwyntio'r rhan fwyaf o'n hadnoddau goruchwylio ar y gwasanaethau uchaf eu cyrhaeddiad a risg – mewn geiriau eraill, y gwasanaethau hynny sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar ddiogelwch defnyddwyr. Ochr yn ochr â hyn, rydyn ni'n parhau i fonitro'n eang ar draws pob VSP.

---

[5] Gall honiadau o gynnwys niweidiol yn bresennol neu ar gael yn eang ar lwyfan fod yn sbardun neu'n ddangosydd i Ofcom ystyried a oes pryderon ynghylch cydymffurfio.

Yn y pen draw, mae hyn yn ein galluogi i wneud y canlynol:

deall natur y risg o niwed ar y gwasanaethau hynny a'r systemau a'r prosesau sydd eisoes ar waith i fynd i'r afael â nhw,

asesu effeithiolrwydd eu mesurau diogelwch, gan ystyried amgylchiadau penodol y gwasanaeth unigol (gan gynnwys ei lefelau risg, ei faint a'i gapasiti),

lle bo'n briodol, gweithio gyda'r gwasanaeth i sicrhau gwelliannau yn y mesurau hynny mor gyflym ac effeithlon â phosibl.

Rydyn ni wedi llwyddo i sefydlu ein swyddogaeth oruchwylio dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi cael ymgysylltiad cadarnhaol gan y gwasanaethau rydyn ni wedi'u blaenoriaethu. Rydyn ni wedi gallu defnyddio'r cysylltiadau hyn i ddysgu rhagor am fesurau diogelwch ac i bwyso am welliannau lle bo hynny'n briodol.

**Astudiaeth achos: OnlyFans**

Mae OnlyFans yn VSP hysbysedig sy'n cael ei adnabod yn gyffredinol am letya cynnwys i oedolion. Mae llwyfan OnlyFans yn caniatáu i ddefnyddwyr roi gwybod am fideos anghyfreithlon/niweidiol i OnlyFans i'w hadolygu ymhellach. Yn wreiddiol, roedd y swyddogaeth hon yn cynnig pum categori i ddefnyddwyr gyflwyno eu hadroddiadau yn eu herbyn (gweler isod). Gall pobl nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth roi gwybod am unrhyw gynnwys/cyfrifon amheus drwy e-bost.

Roedd Ofcom yn awyddus i ddeall sut roedd OnlyFans yn blaenoriaethu adroddiadau defnyddwyr sy'n ymwneud ag amheuaeth o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol heb gael categori adrodd penodol ar gyfer hynny. Esboniodd OnlyFans eu bod yn adolygu pob adroddiad ac yn eu blaenoriaethu yn ôl eu sylwedd, ni waeth pa fotwm adrodd y mae defnyddiwr yn ei ddewis, ond nad oedd ganddynt gategori penodol ar gyfer rhoi gwybod am ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM). Yn ystod ein hymgysylltiad goruchwyliol rheolaidd â'r gwasanaeth, gwnaethom dynnu eu sylw at adroddiad 2020 Canolfan Diogelu Plant Canada, a oedd yn dadlau bod peidio â chael categori adrodd penodol ar gyfer CSAM yn ei gwneud hi'n anoddach i wasanaethau flaenoriaethu adroddiadau CSAM a chasglu data adrodd CSAM.[6] Roedd ymchwil a gwaith datblygu polisi dilynol Ofcom ei hun hefyd wedi canfod bod systemau adrodd defnyddwyr gyda chategorïau adrodd manwl a phenodol yn haws ar y cyfan.[7]


Gwnaethom ymgysylltu ag OnlyFans ac awgrymu eu bod yn ystyried ehangu eu categorïau adrodd, er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr roi gwybod am CSAM ac i OnlyFans allu blaenoriaethu'r adroddiadau hynny'n briodol. Ystyriodd OnlyFans y dystiolaeth a gyflwynwyd gennym ac, yn wirfoddol o fewn tri mis, newidiodd eu hadnodd adrodd i ychwanegu categori penodol ar gyfer CSAM (gweler isod). Mae OnlyFans yn gweithio gydag Ofcom i fonitro effaith y newid


[6] Canolfan Diogelu Plant Canada, 2020. Reviewing Child Sexual Abuse Material Reporting Functions on Popular Platforms, tudalen 7.

[7] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/241832/Online-Trials-Appendix-2-Reporting-Mechanisms.pdf

hwn ac i gael gwell dealltwriaeth o sut gellir gwneud categorïau adrodd mor effeithiol â phosibl.

**Hen gategorïau adrodd OnlyFans a'r categorïau adrodd newydd**




Mae ein gwaith gydag OnlyFans yn dangos sut mae goruchwyliaeth yn gweithio'n ymarferol – gan ddefnyddio perthynas ddibynadwy a sgyrsiau agored i sicrhau atebion ystwyth, a gwreiddio arferion da. Er nad yw effaith ac effeithiolrwydd y newid hwn i lwyfan OnlyFans wedi cael ei asesu'n llawn eto, mae'n bwysig bod Ofcom a gwasanaethau'n gallu cydweithio a symud yn gyflym i wneud newidiadau i ddiogelu defnyddwyr yn well.

Mae meithrin perthynas effeithiol hefyd wedi golygu ein bod yn gallu tynnu sylw at bryderon yn gyflym pan fyddant yn codi. Er enghraifft, pan ddaeth newyddion am yr argyfwng yn Israel a Gaza ym mis Hydref 2023, gwnaethom anfon llythyr agored at VSPs ynghylch y risg gynyddol y bydd eu defnyddwyr yn dod ar draws cynnwys niweidiol sy'n deillio o'r argyfwng, a'r angen i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys o'r fath. Roeddem yn gallu ymgysylltu'n gyflym â llwyfannau i ddeall y camau roeddent yn eu cymryd i ymateb i'r argyfwng a diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.

## Gorfodi

Rydyn ni wedi cynnal rhaglen eang o weithgareddau gorfodi ers dechrau rheoleiddio VSPs, gan chwilio am newidiadau cadarnhaol a mynd i'r afael â chydymffurfio gwael. Ffocws ein gweithgarwch gorfodi yn bennaf yw sicrhau gwelliannau yn systemau a phrosesau VSPs i wella diogelwch defnyddwyr ar raddfa eang, ond gall hefyd fod yn briodol cosbi ymddygiad gwael neu gymell cydymffurfedd ehangach ar draws y diwydiant.

Pan fyddwn yn amau nad yw VSP wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y drefn VSP, mae gennym ystod eang o bwerau ac adnoddau ar gael i ni. **Mae'r rhain wedi'u hamlinellu'n fanylach yn Atodiad 1**. Rydyn ni'n asesu pa adnoddau sydd fwyaf priodol mewn unrhyw achos penodol yn unol â'n canllawiau gorfodi.

Os oes sail resymol dros amau diffyg cydymffurfio a'n bod yn penderfynu defnyddio dull gorfodi ffurfiol i ddatrys ein pryderon, efallai y byddwn yn agor ymchwiliad. Fodd bynnag, byddwn fel arfer yn ymgysylltu â llwyfan yn gyntaf ynghylch ein pryderon cyn ystyried defnyddio ein hadnoddau mwy ffurfiol. Mae enghreifftiau o'n **gweithgareddau gorfodi ffurfiol** yn cynnwys:

- Cwblhau ymchwiliad i Tapnet a gosod cosb ariannol o £2,000 am fethu ymateb i gais am wybodaeth a methu cydweithredu'n llawn ag Ofcom.
- Ymchwiliad i Secure Live Media Ltd (y credir ei fod yn ddarparwr llwyfan i oedolion, CamSoda) i asesu a oeddent yn darparu VSP hysbysadwy a bod mesurau ar waith i ddiogelu plant).

- Ymchwiliad i My Medial World Ltd, darparwr OneVSP, i ystyried y mesurau sydd ganddynt ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.
- Ymchwiliad i TikTok i ystyried a oedd wedi methu cydymffurfio â'i ddyletswyddau i ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i gais am wybodaeth mewn perthynas ag adroddiad VSP diweddar Ofcom ar sut mae VSPs yn atal plant rhag dod ar draws niwed.

Mewn achosion eraill, rydyn ni wedi nodi cyfnodau o adfer cydymffurfedd, lle rydyn ni wedi cytuno ar gynlluniau gwella gyda rhai llwyfannau yn lle agor ymchwiliadau ffurfiol, gan osod targedau clir ar gyfer gwella yn erbyn amserlen y cytunwyd arni. Enghreifftiau o **adfer cydymffurfedd**:

- Yn dilyn ein rhaglen orfodi a agorwyd i ddeall yn well y mesurau sicrhau oedran ar VSPs i oedolion sydd wedi'u sefydlu yn y DU (gweler y blwch isod), rydyn ni wedi sicrhau gwelliannau i fesurau sicrhau oedran ar lwyfannau o'r fath, gan gynnwys:
- mesurau a roddwyd ar waith yn ddiweddar gan Tapnet Ltd i ddiogelu pobl ifanc dan 18 oed rhag fideos pornograffig ar RevealMe,
- ymrwymiadau gan Kiwi Leisure Ltd i gyflwyno mesurau sicrhau oedran ar ei lwyfan AdmireMe i ddiogelu pobl ifanc dan 18 oed rhag fideos pornograffig,
- ymgysylltiad cadarnhaol gan VSPs hysbysedig eraill sydd wrthi'n gwneud gwelliannau tebyg, y byddwn yn rhannu manylion amdanynt maes o law.
- Yn dilyn pryderon a godwyd ar ôl y saethu yn Buffalo, Efrog Newydd ym mis Mai 2022, gwnaethom ymgysylltu â BitChute i ddysgu mwy am ei systemau a'i brosesau. Yn dilyn ymgysylltiad Ofcom, mae BitChute wedi ymrwymo i wneud newidiadau pwysig i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol gan gynnwys (i) cynyddu cwmpas a chapasiti ei dîm cymedroli, (ii) ymestyn adroddiadau defnyddwyr i ddefnyddwyr sydd heb gofrestru, a (iii) casglu metrigau ychwanegol i fesur effaith y newidiadau mae wedi'u gwneud.

**Astudiaeth achos: Llwyfannau bach i oedolion**

Ar 10 Ionawr 2023, agorodd Ofcom raglen orfodi i edrych a oes gan VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU ac sy'n arbenigo mewn cynnwys i oedolion fesurau sicrhau oedran priodol ar waith. Rydyn ni wedi ystyried y mesurau y mae llwyfannau wedi'u rhoi ar waith i gael sicrwydd ynghylch oedran eu defnyddwyr ac i atal pobl ifanc o dan 18 oed rhag gwylio fideos pornograffig.

Yn dilyn cyfnod o gasglu a dadansoddi gwybodaeth fanwl, roeddem yn poeni nad oedd rhai llwyfannau yn diogelu defnyddwyr dan oed yn effeithiol rhag cynnwys pornograffig sydd ar gael ar y llwyfannau hyn. Roedd hyn yn cynnwys y VSP, RevealMe, a oedd yn cael ei weithredu gan Tapnet, ymysg rhai eraill. Yn lle agor ymchwiliad ffurfiol, rhoesom gyfnod byr iddynt wneud newidiadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Mewn ymateb i'n gwaith, mae RevealMe wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w fesurau rheoli mynediad a sicrhau oedran. O dan ei brosesau gwell, gall Tapnet gael sicrwydd cadarn ynghylch oedran defnyddwyr RevealMe drwy fynnu eu bod yn gwirio eu hoedran wrth fynd i mewn i'r safle neu'n mewngofnodi i gyfrif cofrestredig y mae eu hoedran eisoes wedi'i nodi ar ei gyfer. Gall defnyddwyr ddilysu eu hoedran naill ai drwy gyflwyno dilysiad i adnodd dilysu oedran awtomataidd trydydd parti, neu drwy ddefnyddio cerdyn credyd i dalu. Mae'n werth nodi bod Tapnet wedi rhoi mesur dilysu oedran dros dro ar waith

pan oedd y broses hon yn cael ei datblygu a'i phrofi i fodloni ein hamserlen ofynnol ar gyfer gwelliannau.

Dim ond un enghraifft yw'r berthynas â Tapnet o sut gallwn weithio'n gadarnhaol i sicrhau gwell diogelwch ar-lein i ddefnyddwyr. Byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol gyda VSPs sy'n cael eu rheoleiddio i sicrhau cydymffurfedd ac i sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr, ac yn defnyddio camau gorfodi lle bo angen.

## Tryloywder

O dan y drefn VSP, mae gan Ofcom y pŵer i gyhoeddi adroddiadau ar y mesurau a ddefnyddir gan lwyfannau at ddibenion diogelu defnyddwyr rhag fideos sy'n cynnwys deunydd niweidiol a'r ffyrdd y caiff mesurau o'r fath eu rhoi ar waith.[8] Mae cyhoeddi adroddiadau ar VSPs yn helpu i rymuso'r cyhoedd a rhoi gwybodaeth iddynt[9], i ddal llwyfannau'n atebol, ac i sbarduno gwelliannau drwy ddangos arferion da ar draws y diwydiant. Mae hwn hefyd yn gyfle i Ofcom fod yn dryloyw ynghylch y gwaith y mae wedi'i wneud yn ei swyddogaethau polisi, goruchwylio a gorfodi. Ein nod yw gwneud ein hadroddiadau'n hygyrch ac yn ddifyr i'n darllenwyr.

Rydyn ni wedi treialu gwahanol ddulliau o adrodd ar dryloywder o dan y drefn VSP. Yn 2022, gwnaethom gyhoeddi un adroddiad cynhwysfawr ar yr hyn roeddem wedi'i ganfod yn ystod ein blwyddyn lawn gyntaf o reoleiddio VSPs, gan gynnwys atodiadau sy'n amlinellu adroddiadau penodol i lwyfannau ar gyfer pob un o'r VSPs hysbysedig. Ers hynny, rydyn ni wedi canolbwyntio ar gyhoeddi adroddiadau byrrach, thematig ar dryloywder:

- **Yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu am bolisïau defnyddwyr VSPs (cyhoeddwyd ym mis Awst 2023):** Roedd yr adroddiad hwn yn edrych ar yr heriau y mae darparwyr VSP yn eu hwynebu wrth weithredu eu telerau ac amodau, a'r bwriad oedd darparu rhagor o dryloywder i'r cyhoedd ynghylch polisïau defnyddwyr. Roedd yr adroddiad yn ystyried y gwahanol ddulliau y mae VSPs yn eu defnyddio ar hyn o bryd i weithredu eu telerau ac amodau, ac yn tynnu sylw at enghreifftiau o'r hyn sy'n arfer da yn ein barn ni.
- **Diogelu plant rhag cael gafael ar gynnwys a allai fod yn niweidiol (cyhoeddwyd 14 Rhagfyr 2023):** Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar Twitch, TikTok a Snap, ac yn edrych ar y mesurau mae'r VSPs hyn yn eu defnyddio i atal plant rhag dod ar draws niwed. Gwnaethom nodi bod y tri yn defnyddio hunanddatganiad i ddeall oedran defnyddwyr a theilwra eu profiad, a bod hyn yn hawdd ei osgoi. Bydd hwn yn faes ffocws ar gyfer ein gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.

Un o nodau eraill ein hadroddiadau yw annog llwyfannau i ymgysylltu â'r hyn y mae Ofcom yn ei ystyried yn arfer da ac ystyried gwneud newidiadau i'w systemau a'u prosesau. Gallant fod yn sail i drafodaethau goruchwylio a helpu darparwyr i ddeall lle gallant wneud newidiadau cadarnhaol. Er enghraifft, ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad VSP ar bolisïau defnyddwyr, ymrwymodd amrywiol VSPs i wella eu telerau ac amodau, a'u gwneud yn haws eu darllen a'u deall.

[8] Gweler adran 368Z11(1)(b) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[9] Fel y nodwyd gennym yn ein herthygl yn y Journal of Online Trust and Safety yn 2023, gallai 'y cyhoedd' gynnwys nifer o bartïon â diddordeb, fel defnyddwyr neu ddarpar ddefnyddwyr y gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill â diddordeb. (Er enghraifft, cyflenwyr gwasanaethau i'r llwyfan (fel darparwyr taliadau), hysbysebwyr, buddsoddwyr, sefydliadau trydydd sector, newyddiadurwyr ac ymchwilwyr).

## Cydweithredu rhyngwladol

Er mai dim ond i wasanaethau sydd â'r cysylltiad gofynnol â'r DU y mae'r drefn VSP yn berthnasol, rydyn ni'n cydnabod bod VSPs yn fyd-eang eu natur. Mae hwyluso cydweithio rheoleiddiol rhyngwladol yn ein helpu i sicrhau gwell diogelwch i ddefnyddwyr ac i hybu ein hamcanion domestig. Mae hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer y gwasanaethau rydyn ni'n eu rheoleiddio, ac mae galluogi cydweithredu o ran disgwyliadau rheoleiddio a dulliau goruchwylio yn gallu hybu cydymffurfedd gwasanaethau ar draws awdurdodaethau. Mae ein hymgysylltiad rhyngwladol wedi chwarae rhan bwysig o ran cyflawni ein hamcanion hyd yma. Mae ein blog diweddar yn crynhoi ein cydweithrediad rhyngwladol yn fanwl.

Ddechrau 2023, gwnaethom ymuno â rheoleiddwyr VSP eraill yng Ngwlad Belg, Cyprus, Ffrainc a'r Almaen i greu'r Gweithgor Rhyngwladol ar Ddilysu Oedran (IWGAV), yr unig fforwm pwrpasol i reoleiddwyr VSPs gyfnewid gwybodaeth a'r arferion gorau ynghylch eu dulliau o sicrhau oedran. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y gweithgor ddatganiad ar y cyd ac ers hynny mae wedi dyblu ei aelodaeth, gan greu llwyfan hollbwysig i reoleiddwyr rannu ymchwil ac arbenigedd ar ddulliau newydd ac arloesol o asesu oedran defnyddwyr i gadw plant yn ddiogel. Mae'r cysondeb rhyngwladol hwn ar y flaenoriaeth polisi o ddiogelu plant rhag cael gafael ar ddeunydd pornograffig ar VSPs yn helpu i greu dulliau cydweithredol cydgysylltiedig o reoleiddio diogelwch ar-lein ac, yn y pen draw, i ddiogelu diogelwch defnyddwyr ar-lein.

Dim ond un achos yw'r IWGAV o bwysigrwydd ymgysylltu rhyngwladol i gyflawni ein hamcanion VSP. Er enghraifft, ym mis Medi 2023, gwnaethom gyflwyniad ffurfiol i ymgynghoriad cyhoeddus gan ein cymar yn Iwerddon, Coimisiún na Meán, i'w helpu i ddatblygu ei reolau sydd ar y gweill ar gyfer VSPs yn Iwerddon.

Rydyn ni hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â chymheiriaid rheoleiddio VSPs i drafod amrywiaeth o faterion penodol, gan gynnwys materion awdurdodaethol, gweithredu rheoleiddiol, a goruchwylio. Yn ddiweddar, rydyn ni wedi cyd-sefydlu'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang, yr unig fforwm byd-eang sy'n ymroi i gefnogi cydweithio rhwng rheoleiddwyr diogelwch ar-lein ac rydyn ni'n falch o fod yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd eleni.

Bydd ymgysylltu rhyngwladol ynghylch VSPs yn parhau i fod yn flaenoriaeth hollbwysig, yn enwedig gan ei fod yn ategu ein gwaith ar gyflawni amcanion rhyngwladol y Ddeddf Diogelwch Ar-lein newydd. Yn hollbwysig, mae ein hymgysylltiad rhyngwladol yn ymestyn y tu hwnt i gyd-reoleiddwyr, ac rydyn ni'n mynd ati i feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth gyda'r gymuned ehangach o randdeiliaid polisi VSP. Bydd llawer o'r gwasanaethau y byddwn yn eu rheoleiddio o dan y drefn diogelwch ar-lein yn gweithredu ar draws awdurdodaethau eraill, a bydd ganddynt ddyletswyddau rheoleiddio mewn awdurdodaethau eraill. Mae'r fframwaith VSP yn parhau i gynnig y cyfle am ddysgu sylweddol, nid yn unig i ni, ond i'r gymuned ryngwladol wrth i bawb weithio gyda'n gilydd i wneud bywydau'n fwy diogel ar-lein.

# VSP yw sail y drefn diogelwch ar-lein

Fel y nodir yn ein cyhoeddiad Ymagwedd at Ddiogelwch Ar-lein, mae'r drefn VSP yn brawf effeithiol ar gyfer sut gall rheoleiddio diogelwch ar-lein weithio'n ymarferol. Drwy ddefnyddio'r amrywiaeth o adnoddau rheoleiddio sydd ar gael i ni, rydyn ni wedi gallu gwneud cynnydd gwych o ran:

- nodi, ymchwilio a darparu dadansoddiad o'r hyn sy'n arfer da a gwael,
- argymell newidiadau a gwreiddio safonau drwy ymgysylltu goruchwyliol,
- gwella mesurau drwy gymryd camau gorfodi cymesur pan fyddwn wedi nodi meysydd sy'n peri pryder,

- tynnu sylw at arferion da a gwael drwy adrodd ar dryloywder.

Byddwn yn parhau i bwyso am fesurau diogelu gwell i ddefnyddwyr o dan y drefn VSP. Bydd hyn yn helpu i lywio ein rhaglen waith ar ddiogelwch ar-lein ac yn sylfaen i'n dull gweithredu – gan bwysleisio pwysigrwydd ymatebion rheolaidd, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur gennym ni fel y rheoleiddiwr. **Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y gwahaniaethau rhwng y ddwy drefn.**

# Ein blaenoriaethau VSP diweddaraf

Yn yr adran hon, rydyn ni'n nodi ein blaenoriaethau diwygiedig ar gyfer gweddill y drefn VSP – nes bydd y ddeddfwriaeth VSP yn cael ei diddymu a bod VSPs sy'n cael eu rheoleiddio yn cael eu trosglwyddo i'r drefn diogelwch ar-lein.

## Ein dull gweithredu strategol ar gyfer rheoleiddio VSPs hyd yma

Ar ddechrau'r drefn VSP, gwnaethom sefydlu ein pedwar nod cyffredinol ar gyfer y drefn VSP. Y rhain yw **codi safonau mesurau diogelu defnyddwyr, mynd i'r afael yn gyflym â diffyg cydymffurfio, cynyddu tryloywder ar draws y diwydiant, a pharatoi ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein**. Bydd y rhain yn aros yn gyson drwy weddill y drefn VSP.

Y llynedd, gwnaethom nodi ein blaenoriaethau strategol ar gyfer ail flwyddyn y drefn, ar sail yr hyn roeddem wedi'i ddysgu yn ystod y flwyddyn gyntaf. Gwnaethom benderfynu edrych yn ehangach ar y ffordd y mae llwyfannau'n pennu, yn gorfodi ac yn profi eu dull o ymdrin â diogelwch defnyddwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar bynciau penodol, gan gynnwys sicrhau oedran. Dyma oedd sail llawer o'r gweithgarwch a amlinellwyd yn yr adran flaenorol.

### Bydd rheoleiddio VSPs yn parhau i fod yn flaenoriaeth nes bydd y drefn wedi'i diddymu

Rydyn ni nawr yn dod at flynyddoedd olaf y drefn VSP. Cafodd y drefn VSP ei sefydlu fel trefn dros dro. Bydd Llywodraeth y DU, maes o law, yn diddymu'r drefn VSP a bydd VSPs sy'n cael eu rheoleiddio o dan y drefn bresennol yn pontio i gael eu rheoleiddio'n llawn o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023.

Hyd nes y caiff ei diddymu, mae'r drefn VSP yn dal mewn grym yn llawn ar gyfer yr holl wasanaethau presennol sy'n bodloni'r meini prawf cwmpas VSP hyd at ddechrau'r cyfnod pontio[10] – a byddwn yn parhau i flaenoriaethu gorfodi'r drefn a phwyso am welliannau cadarnhaol i ddefnyddwyr yn ystod y cyfnod llawn y mae ar waith. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau cyfnod pontio llyfn rhwng y ddwy drefn, ac rydyn ni'n trafod hyn ymhellach isod.

### Ein dull gweithredu strategol ar gyfer rheoleiddio VSPs yn y dyfodol

Byddwn yn parhau i weithio ar draws ein holl swyddogaethau rheoleiddio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr, gan gynnwys datblygu polisi, goruchwylio, gorfodi a thryloywder. Er mwyn arwain ein gwaith – ac ar sail yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu wrth reoleiddio VSPs – rydyn ni nawr yn adolygu ein huchelgeisiau ar gyfer gweddill y drefn VSP.

[10] Dechreuodd y cyfnod pontio ar 10 Ionawr 2024, ac mae unrhyw wasanaethau sy'n cychwyn ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu rheoleiddio'n gyfan gwbl o dan y drefn diogelwch ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1.

Gwnaethom ddefnyddio nifer o ffynonellau i helpu i nodi'r meysydd blaenoriaeth rydyn ni am roi sylw iddynt yn ystod gweddill y drefn VSP. Rydyn ni wedi:

- pwyso a mesur y wybodaeth a'r gwersi rydyn ni wedi'u dysgu ers dechrau'r drefn VSP,
- ymgysylltu â sefydliadau cymdeithas sifil ar y risgiau presennol i ddiogelwch defnyddwyr ar VSPs yn y DU,
- adolygu gwybodaeth gan asiantaethau gorfodi i gael dealltwriaeth ychwanegol o systemau a phrosesau atal niwed o dan y drefn VSP,
- adolygu gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus gan reoleiddwyr eraill, fel adroddiadau tryloywder Comisiynydd eDdiogelwch Awstralia.

Rydyn ni hefyd wedi sicrhau bod ein nodau o dan y drefn VSP yn cyd-fynd â'r meysydd y byddwn yn eu blaenoriaethu o dan y drefn diogelwch ar-lein cyn belled ag y bo modd. Drwy wneud hynny, bydd ein blaenoriaethau VSP yn ein galluogi i sicrhau bod modd pontio'n ddidrafferth yn rheoleiddiol rhwng y ddwy drefn a sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ein hadnoddau ar y meysydd sy'n effeithio fwyaf ar ddiogelwch defnyddwyr. Bydd y dull hwn hefyd yn lleihau'r baich ychwanegol ar VSPs wrth iddynt baratoi i gael eu rheoleiddio o dan y drefn diogelwch ar-lein.

Gan ystyried yr uchod i gyd, rydyn ni wedi nodi'r chwe maes blaenoriaeth isod. Byddwn yn parhau â'n ffocws eang ar sut mae VSPs yn gosod, yn gorfodi ac yn profi eu dull o ddiogelu defnyddwyr. Byddwn yn blaenoriaethu gwneud yn siŵr bod gan VSPs fesurau diogelwch ar waith i sicrhau:

1. **bod polisïau defnyddwyr clir ar waith sy'n hawdd eu canfod a'u deall,**
2. **bod fideos terfysgol neu fideos sy'n ysgogi casineb a/neu drais yn cael eu tynnu i lawr yn gyflym,**
3. **bod camdrinwyr plant yn cael eu hatal rhag rhannu a/neu wylio fideos cam-drin plant yn rhywiol,**
4. **bod plant yn cael eu hatal rhag dod o hyd i fideos pornograffig a'u gwylio ar lwyfannau i oedolion,**
5. **bod plant yn cael eu hatal rhag dod o hyd i fideos eraill sy'n amhriodol i'w hoedran a'u gwylio,**
6. **bod pob defnyddiwr yn gallu cael mynediad at adnoddau effeithiol a hawdd eu defnyddio i roi gwybod am gynnwys neu i gyflwyno cwynion.**

Ein nod cyffredinol ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth hyn yw sicrhau bod VSPs yn rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu eu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol.

Dyma'r meysydd y byddwn yn rhoi'r rhan fwyaf o'n sylw iddynt, ond gwyddom y gallai materion eraill godi y bydd angen eu blaenoriaethu oherwydd difrifoldeb y niwed neu'r risg i ddefnyddwyr. Byddwn yn asesu'r rhain fesul achos. **Rydyn ni'n trafod pob blaenoriaeth yn gryno isod.**

## Bod gan VSPs bolisïau defnyddwyr clir ar waith sy'n hawdd eu canfod a'u deall

Mae'n bwysig i'r drefn VSP a'r drefn diogelwch ar-lein fod gan VSPs bolisïau defnyddwyr clir ar waith sy'n hawdd eu canfod a'u deall. Y rheswm am hyn yw bod polisïau defnyddwyr yn ei gwneud yn glir i ddefnyddwyr beth y gallant ac na allant ei rannu ar y llwyfan, a beth fydd llwyfannau'n ei wneud os bydd defnyddiwr yn methu cydymffurfio â pholisïau defnyddwyr y llwyfan.

Roedd ein hadroddiad ar bolisïau defnyddwyr VSPs yn 2023 wedi canfod gwendidau ym mholisïau mewnol ac allanol llwyfannau a allai arwain at ganlyniadau diogelwch gwael i ddefnyddwyr. Gwnaethom nodi bod angen sgiliau darllen uwch ar ddefnyddwyr mewn llawer o achosion er mwyn deall telerau ac amodau'r llwyfan, ac nid oedd y telerau a'r amodau bob amser yn gynhwysfawr.

Felly, mae angen i lwyfannau wneud rhagor o waith i wneud eu polisïau defnyddwyr yn effeithiol. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith rydyn ni eisoes wedi'i wneud ac yn pwyso am ragor o welliannau gan lwyfannau. Yn benodol, erbyn diwedd y drefn VSP, rydyn ni'n disgwyl i lwyfannau sicrhau bod eu polisïau defnyddwyr yn gynhwysfawr, yn hawdd eu canfod ac yn hawdd eu deall i ddefnyddwyr. Rydyn ni hefyd yn disgwyl i lwyfannau archwilio a chymhwyso dulliau i annog defnyddwyr i dalu sylw i bolisïau defnyddwyr.

Bydd cael telerau gwasanaeth clir a chynhwysfawr yn parhau i fod yn ofyniad pwysig o dan y drefn diogelwch ar-lein – ac yn parhau i fod yn sylfaen graidd ar gyfer mesurau eraill i wella diogelwch ar-lein.

## Bod fideos terfysgol neu fideos sy'n ysgogi casineb a/neu drais yn cael eu tynnu i lawr yn gyflym

Mae'r drefn VSP a'r drefn diogelwch ar-lein yn mynnu bod llwyfannau'n diogelu defnyddwyr rhag fideos terfysgol neu fideos sy'n ysgogi casineb a/neu drais, gan gynnwys cynnwys fideo hiliol a senoffobig. O dan y drefn VSP, byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod gan lwyfannau systemau a phrosesau priodol ar waith i nodi a chael gwared ar gynnwys fideo o'r fath yn gyflym.

Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod llwyfannau'n gorfodi eu telerau ac amodau'n effeithiol, ac yn chwilio am gyfleoedd i wella'r amseroedd tynnu i lawr ar gyfer y cynnwys fideo hwn. Ar ben hynny, pan fydd llwyfannau'n gweithredu neu'n ystyried swyddogaethau newydd perthnasol a allai fod yn beryglus – fel ffrydio byw – hoffwn weld llwyfannau'n rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau diogelwch defnyddwyr a sut gallant sicrhau effeithiolrwydd mesurau i liniaru niwed.

## Bod camdrinwyr plant yn cael eu hatal rhag rhannu a/neu wylio fideos cam-drin plant yn rhywiol

Yn yr un modd, mae atal camdrinwyr plant rhag gallu rhannu a/neu wylio fideos sy'n cynnwys deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM) yn dal yn un o amcanion craidd ein gwaith. Er nad yw meithrin perthynas amhriodol yn niwed y cyfeirir ato'n benodol o dan y drefn VSP, gall gweithgarwch meithrin perthynas amhriodol ar VSP arwain at lwytho CSAM i fyny neu ei ffrydio. Felly, credwn ei bod hi'n bwysig bod llwyfannau'n ystyried cyfres o fesurau i atal meithrin perthynas amhriodol ac i atal camdrinwyr plant rhag rhannu neu wylio CSAM. Bydd atal y niwed difrifol hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o dan y drefn diogelwch ar-lein.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n llwyfannau VSP hysbysedig i nodi a sbarduno gwelliannau mewn mesurau diogelwch defnyddwyr sy'n mynd i'r afael â CSAM a meithrin perthynas amhriodol. Erbyn diwedd y drefn, hoffwn fod yn fodlon bod VSPs yn gwneud popeth o fewn eu gallu i nodi, blaenoriaethu a mynd i'r afael ag achosion o feithrin perthynas amhriodol a dosbarthu CSAM, i liniaru risgiau'r niwed difrifol hwn.

## Bod plant yn cael eu hatal rhag dod o hyd i fideos pornograffig a'u gwylio ar lwyfannau i oedolion

Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod gan VSPs i oedolion ddulliau cadarn o sicrhau oedran sy'n atal plant rhag cael gafael ar fideos i oedolion.

Rydyn ni wedi gweld rhywfaint o gynnydd yn barod. Yn ogystal â'r prosesau dilysu cyfredol i sicrhau oedran crewyr, mae OnlyFans wedi cyflwyno atebion, wedi'u darparu gan Yoti a Ondato, i ddilysu oedran tanysgrifwyr yn y DU. Dechreuodd hyn gyda thanysgrifwyr newydd ac mae OnlyFans wedi

dweud wrthym eu bod nawr wedi ôl-ddilysu oedran eu holl grewyr yn y DU, ac wrthi'n dilysu oedran yr holl danysgrifwyr yn y DU.

Mae ein rhaglen orfodi ar fesurau sicrhau oedran ar VSPs i oedolion sydd wedi'u sefydlu yn y DU hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol ar yr amcan hwn (gweler uchod). Bydd y rhaglen yn parhau yn y flwyddyn i ddod. Bydd yr ymgysylltu hwn yn ein helpu i barhau i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth am ymyriadau penodol, a sut mae llwyfannau yn eu rhoi ar waith, a fydd yn ei dro yn llywio ein gwaith o dan y drefn diogelwch ar-lein.

Bydd hyn yn berthnasol ac yn bwysig iawn i'r drefn diogelwch ar-lein oherwydd bod yn rhaid i wefannau ac apiau sy'n dangos neu'n cyhoeddi cynnwys pornograffig sicrhau nad yw plant yn gallu dod ar draws pornograffi ar eu gwasanaeth fel rheol. I wneud hyn, rhaid iddynt gyflwyno mesur sicrhau oedran – drwy ddilysu oedran, amcangyfrif oedran neu gyfuniad o'r ddau – sy'n 'effeithiol iawn' o ran penderfynu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn ai peidio. [11] Dylai rheolaethau mynediad effeithiol atal plant rhag dod ar draws cynnwys pornograffig ar y gwasanaeth hwnnw.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu yn y maes hwn, gan gynnwys gyda rheoleiddwyr VSP eraill yn yr IWGAV – gan gyfnewid gwybodaeth a'r arferion gorau o ran dulliau sicrhau oedran.

Bod plant yn cael eu hatal rhag dod o hyd i fideos eraill sy'n amhriodol i'w hoedran a'u gwylio

Rydyn ni hefyd am sicrhau bod darparwyr VSP yn diogelu plant rhag mathau eraill o ddeunydd dan gyfyngiadau (sy'n cynnwys deunydd arall sydd wedi'i gynnwys mewn fideos a allai amharu ar ddatblygiad meddyliol, moesol neu gorfforol plentyn). Rydyn ni wedi nodi enghreifftiau o'r math o gynnwys y gallai hyn ei gynnwys yn ein Canllawiau i VSPs, fel cynnwys fideo sy'n cynnwys deunydd sy'n dreisgar a/neu'n gynnwys a allai hyrwyddo anhwylderau bwyta, hunan-niweidio a/neu hunanladdiad, ymysg eraill.

Byddwn yn parhau i weithio gyda gwasanaethau o dan y drefn VSP i sbarduno gwelliannau i'w mesurau diogelwch plant. Er enghraifft, byddwn yn ymgysylltu â VSPs i archwilio sut gallant wella dulliau ar gyfer adnabod plant a sicrhau eu bod yn cael profiadau sy'n briodol i'w hoedran. Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad ar ddiogelwch plant yn 2023, gwelsom fod llwyfannau sy'n boblogaidd ymysg pobl ifanc dan 18 oed – TikTok, Twitch a Snap – yn dibynnu ar ddefnyddwyr yn datgan eu hoedran yn gywir wrth gofrestru, sy'n hawdd ei osgoi.

Rhaid parhau i ddiogelu plant rhag cynnwys amhriodol a niweidiol o dan y drefn diogelwch ar-lein. Mae'r diffiniad o ba fath o gynnwys y mae'n rhaid eu diogelu rhagddo ychydig yn wahanol o dan y drefn diogelwch ar-lein,[12] ond serch hynny bydd yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Ofcom. Cyn diddymu'r drefn VSP, mae gan lwyfannau gyfle pwysig i baratoi eu hunain ar gyfer eu dyletswyddau newydd i ddiogelu plant o dan y drefn diogelwch ar-lein.

## Bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad at adnoddau effeithiol a hawdd eu defnyddio i roi gwybod am gynnwys neu i gyflwyno cwynion

Yn olaf, rydyn ni am sicrhau bod pob defnyddiwr yn gallu cael mynediad at adnoddau effeithiol sy'n hawdd eu defnyddio i roi gwybod am gynnwys neu i gwyno am benderfyniadau ar lwyfannau. Rydyn

[11] https://www.ofcom.org.uk/cymru/news-centre/2023/implementing-the-online-safety-act-protecting-children

[12] Gallai hyn olygu cynnwys am hunanladdiad, hunan-niweidio neu anhwylderau bwyta, er enghraifft. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/cymru/online-safety/information-for-industry/guide-for-services

ni am daflu goleuni ar y mesurau sy'n galluogi defnyddwyr yn fwyaf uniongyrchol i fynegi eu pryderon i lwyfannau am y cynnwys maen nhw'n ei weld, a gofyn am wybodaeth gan lwyfannau am eu penderfyniadau.

Mae'r gallu i fflagio neu adrodd ar gynnwys yn gywir yn fesur allweddol o dan y drefn VSP a'r drefn diogelwch ar-lein, ac mae'n hanfodol i lwyfannau gael gwared ar gynnwys niweidiol yn gyflym – ac, os oes angen, i alluogi llwyfannau i flaenoriaethu eu hadnoddau i weithredu ar gynnwys sydd â'r risg fwyaf o niwed. Erbyn diwedd y drefn, dylai llwyfannau sicrhau bod eu hadnoddau adrodd ar gynnwys yn hawdd eu canfod a'u defnyddio, yn effeithiol, ac yn cwmpasu'r ystod lawn o niwed y mae'n rhaid i ddarparwyr VSP ddiogelu defnyddwyr rhagddo.

Pan fydd defnyddiwr yn dymuno cwyno, dylai hyn hefyd fod yn syml ac yn dryloyw, a rhoi digon o wybodaeth i ddefnyddwyr am y rheswm dros benderfyniad. Drwy gynyddu tryloywder ynghylch sut mae cwynion yn cael eu trin a chanolbwyntio ar wneud y broses mor syml â phosibl, gall llwyfannau rymuso a meithrin ymddiriedaeth gyda'u defnyddwyr, cefnogi dealltwriaeth defnyddwyr o sail penderfyniadau, a hybu ymddygiad cadarnhaol yn y dyfodol. Byddwn yn gwneud rhywfaint o waith archwiliol ar ddulliau llwyfannau o ddelio â chwynion defnyddwyr a byddwn yn pwyso am welliannau lle bo angen.

## Meysydd gwaith ehangach eraill

Ar ben hynny, byddwn yn parhau i ymgysylltu â chyrff yn y diwydiant a chymheiriaid rheoleiddio, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, i gyflawni ein nodau o dan y drefn VSP, ac i hybu cydweithio rheoleiddiol. Rydyn ni hefyd yn disgwyl i'n gwaith ar hysbysebion VSPs [13] barhau, lle mae Ofcom a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) yn gweithio gyda'i gilydd i reoleiddio hysbysebion nad ydynt yn cael eu rheoli gan VSPs a hysbysebion sy'n cael eu rheoli gan VSPs.

Rydyn ni wedi ymrwymo i barhau i fynd ar drywydd newidiadau cadarnhaol o dan y drefn VSP, gan ddefnyddio'r ystod fwyaf priodol o bwerau ac adnoddau ffurfiol neu anffurfiol i gyflawni'r nodau hyn, gan barhau i fod yn gymesur.

# Rhagor o wybodaeth am ddiddymu'r drefn VSP

Ym mis Mai 2023, gwnaethom gyhoeddi trosolwg o'r broses o ddiddymu'r drefn VSP. Llywodraeth y DU fydd yn penderfynu ar ddyddiad diddymu'r drefn VSP.

Daeth Atodlen 17 y Ddeddf Diogelwch Ar-lein i rym ar 10 Ionawr 2024. Mae hwn yn nodi'r darpariaethau trosiannol sy'n berthnasol i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio o dan y drefn VSP. Gan fod y cyfnod pontio bellach ar waith o dan y Ddeddf, ni fydd y drefn VSP yn berthnasol i VSPs sydd newydd eu sefydlu (sef y gwasanaethau hynny sy'n dechrau darparu ar ôl dechrau'r cyfnod pontio). Mae darparwyr o'r fath yn cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn unig.

Mae'r drefn VSP yn dal yn weithredol ac mae gennym bwerau o hyd i reoleiddio VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU o dan y rheolau cyfredol. Mae VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU ac a oedd yn darparu eu gwasanaethau cyn dechrau'r cyfnod pontio yn cael eu rheoleiddio o dan y drefn VSP a'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein, ond maen nhw wedi'u heithrio o'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf tan ddiwedd y cyfnod pontio. Yn hollbwysig, mae pob VSP – y mae 22 ohonynt ar hyn o bryd – bellach yn ddarostyngedig i'r troseddau cyfathrebu newydd, pwerau gwybodaeth Ofcom a phwerau gorfodi cysylltiedig, a gofynion hysbysu ffioedd o dan y Ddeddf. Bydd VSPs hefyd yn dod yn

[13] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/229009/vsp-advertising-statement.pdf

ddarostyngedig i'r gofyniad i gwblhau asesiadau risg a mynediad plant unwaith y bydd y dyddiad wedi'i bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau.

Fel rhan o'n nod i baratoi'r diwydiant ar gyfer rheoleiddio o dan y drefn diogelwch ar-lein, byddwn yn gweithio gyda VSPs yn eu paratoadau ar gyfer rheoleiddio diogelwch ar-lein dros y misoedd nesaf. Mae ein map diweddaraf yn dangos sut rydyn ni'n bwriadu rhoi'r drefn ar waith.

# A1 Cefndir

## Mae Ofcom wedi rheoleiddio VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU ers mis Tachwedd 2020

Mae'r drefn VSP wedi'i hamlinellu yn Rhan 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Yn yr adroddiad hwn, rydyn ni'n cyfeirio at y fframwaith rheoleiddio a amlinellir yn Rhan 4B o'r Ddeddf fel 'y Fframwaith VSP' neu'r 'Drefn VSP'. Daeth y gofynion ar gyfer llwyfannau i rym ym mis Tachwedd 2020. Ar yr un pryd, penodwyd Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer VSPs sydd â'r cysylltiad gofynnol â'r DU.

### Rhaid i VSPs ddefnyddio mesurau diogelwch i ddiogelu defnyddwyr

O dan y drefn VSP, rhaid i ddarparwyr VSP ddefnyddio[14] mesurau priodol i ddiogelu pob defnyddiwr rhag fideos sy'n cynnwys '**deunydd niweidiol perthnasol**'. Ystyr deunydd niweidiol perthnasol yw cynnwys fideo sy'n debygol o gymell trais neu gasineb yn erbyn grwpiau gwarchodedig, a chynnwys a fyddai'n cael ei ystyried yn drosedd o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth; cynnwys cam-drin plant yn rhywiol; a hiliaeth a senoffobia.

Rhaid i ddarparwyr VSP hefyd ddefnyddio mesurau i ddiogelu pobl dan 18 oed rhag fideos sy'n cynnwys '**deunydd dan gyfyngiadau**'. Mae deunydd dan gyfyngiadau yn cynnwys fideos sy'n cynnwys deunydd dosbarth 18 oed neu ddeunydd di-ddosbarth, a deunydd arall a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol plant. Mae Ofcom yn cyfeirio at 'ddeunydd niweidiol perthnasol' a 'deunydd dan gyfyngiadau', gyda'i gilydd, fel '**deunydd niweidiol**'.

Mater i ddarparwyr VSP yw penderfynu ar y mesurau sy'n briodol ac yn gymesur ar gyfer eu gwasanaeth. Fodd bynnag, pan fydd darparwyr yn cymryd un neu ragor o fesurau Atodlen 15A i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol, mae'n rhaid iddynt weithredu'r mesurau hynny'n effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau'r diogelwch y bwriedir y mesurau hynny ar ei gyfer.[15]

Mesurau Atodlen 15A

Mae'r mesurau y gall darparwyr VSP ddewis eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr rhag fideos sy'n cynnwys deunydd niweidiol wedi'u nodi yn Atodlen 15A y Ddeddf. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- cael telerau ac amodau ar gyfer deunydd niweidiol, a'u rhoi ar waith yn effeithiol,
- cael mecanweithiau fflagio, adrodd neu ddosbarthu, a'u rhoi ar waith yn effeithiol,
- defnyddio mesurau rheoli mynediad priodol i ddiogelu pobl ifanc dan 18 oed, fel mesurau sicrhau oedran a/neu fesurau rheolaeth gan rieni,
- sefydlu prosesau cwyno hawdd eu defnyddio,
- darparu adnoddau a gwybodaeth ynghylch ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Wrth benderfynu pa rai o'r mesurau a restrir yn Atodlen 15A sy'n briodol ar gyfer eu llwyfan, rhaid i VSPs roi sylw i'r meini prawf ymarferol a chymesur a restrir o dan adran 368Z1(4) o'r Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried maint a natur eu llwyfan, natur y deunydd dan sylw, y niwed y gallai'r deunydd ei achosi, nodweddion y rheini y mae'r mesur wedi'i ddylunio i'w diogelu, a'r gwahanol

[14] Adran 368Z1(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[15] Adran 368Z1 (2) o'r Ddeddf.

fuddiannau dilys sydd yn y fantol, gan gynnwys buddiannau'r darparwr VSP ei hun, y defnyddwyr sy'n creu neu'n llwytho deunydd i fyny, a budd cyffredinol y cyhoedd.

Gall darparwyr VSP hefyd ddefnyddio mesurau eraill, nad ydynt wedi'u rhestru yn y Fframwaith VSP, os ydynt yn credu eu bod yn briodol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y drefn VSP a rhaid iddynt hefyd ystyried y rhain wrth benderfynu pa rai o'r mesurau yn Atodlen 15A y gallai fod yn briodol iddynt eu defnyddio. Gallwch ddarllen mwy am y gofynion rheoleiddio, y deunydd niweidiol sydd o fewn cwmpas y drefn VSP, a'r mesurau y mae'n rhaid i VSPs ystyried eu rhoi ar waith yn y Canllawiau i VSPs.

## Pwerau Ofcom

Nid yw'r drefn VSP yn canolbwyntio ar a yw darnau unigol o gynnwys ar lwyfan yn cael eu caniatáu. Rôl Ofcom yw sicrhau bod gan lwyfannau systemau a phrosesau priodol ar waith i ddiogelu eu defnyddwyr yn effeithiol rhag fideos sy'n cynnwys deunydd niweidiol. Rydyn ni'n trafod hyn ymhellach isod.

Mae gan Ofcom bwerau i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod darparwyr VSP yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y drefn VSP. Mae ein gwaith i sicrhau cydymffurfedd â'r Fframwaith VSP yn cynnwys datblygu polisïau'n barhaus, ymgysylltu goruchwyliol â darparwyr VSP, cyhoeddi adroddiadau tryloywder, a chymryd camau gorfodi fel y bo'n briodol.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i ddylunio i esbonio sut rydyn ni wedi gweithio i sicrhau bod VSPs yn gwella'r mesurau diogelu ar eu llwyfannau, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym fel rheoleiddiwr. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer gweddill y drefn VSP.

## Gorfodi'r drefn

Pan fyddwn yn amau nad yw VSP wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y drefn VSP, mae gennym ystod eang o bwerau ac adnoddau ar gael i ni. Rydyn ni'n asesu pa adnoddau sydd fwyaf priodol mewn unrhyw achos penodol yn unol â'n canllawiau gorfodi, ac fel arfer byddwn yn ymgysylltu â llwyfan ynghylch ein pryderon yn gyntaf cyn ystyried defnyddio ein hadnoddau mwy ffurfiol.

Mae'r rhain yn cynnwys agor ymchwiliadau ffurfiol i benderfynu a yw darparwr wedi torri ei rwymedigaethau, ac ar ôl hynny gallwn wneud y canlynol:

- rhoi hysbysiad gorfodi i'r darparwr,
- rhoi cosbau ariannol o hyd at 5% o refeniw cymwys perthnasol y darparwr neu £250,000, pa un bynnag yw'r mwyaf,
- mynnu bod y darparwr yn cymryd camau i gydymffurfio neu i unioni'r niwed a achoswyd gan y toriad, a/neu
- mewn achosion eithriadol, atal neu gyfyngu ar wasanaeth.

Fodd bynnag, mae ein gweithgareddau gorfodi yn cwmpasu ystod eang o adnoddau eraill, gan gynnwys:

- anfon llythyrau rhybuddio yn amlinellu pryderon ynghylch cydymffurfio,
- agor rhaglenni gorfodi i fonitro cydymffurfedd ar draws y sector,
- dechrau cyfnod 'adfer cydymffurfedd' i sicrhau gwelliannau i fesurau darparwr yn lle agor ymchwiliad ffurfiol,
- pwerau i fynnu bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i Ofcom.

## Mae Ofcom wedi cael ei benodi'n ffurfiol fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU

Ym mis Hydref 2023, cafodd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein Gydsyniad Brenhinol, gan gyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio i gadw defnyddwyr yn y DU yn ddiogel ar-lein. Cafodd Ofcom bwerau newydd i reoleiddio diogelwch ar-lein ac, ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd ei ymgynghoriad cyntaf: Diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein. Bydd datganiadau ar ôl ymgyngoriadau o'r fath yn nodi sut y gall gwasanaethau gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael ag ystod llawer ehangach o gynnwys anghyfreithlon ac yn darparu mwy o swyddogaethau i Ofcom nag sydd gennym o dan y drefn VSP. Er bod gan y ddwy drefn ofynion gwahanol, bydd ein profiad o reoleiddio VSPs yn helpu i lywio ein dull o reoleiddio diogelwch ar-lein ac yn helpu i'n paratoi ar gyfer ein rôl ehangach. Rydyn ni'n cymharu'r drefn VSP a'r drefn diogelwch ar-lein yn fanylach yn Atodiad 2.

Yn y pen draw, bydd Llywodraeth y DU yn diddymu'r ddeddfwriaeth VSP ar ôl cyfnod pontio. Ers dechrau'r cyfnod pontio, sef 10 Ionawr 2024, mae VSPs yn cael eu rheoleiddio o dan y ddwy drefn, ond byddant wedi'u heithrio o'r rhan fwyaf o ddyletswyddau diogelwch ar-lein o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein tan ddiwedd y cyfnod pontio. Ar ôl diwedd y cyfnod pontio hwn, bydd yr holl wasanaethau, gan gynnwys VSPs sydd wedi hysbysu ar hyn o bryd o dan y drefn VSP, yn cael eu rheoleiddio'n llwyr o dan y drefn diogelwch ar-lein.

# A2 Cymharu'r dref VSP a'r drefn diogelwch ar-lein

Mae'r tabl hwn yn nodi, mewn ffordd symlach, yr hyn sy'n wahanol ac yn debyg rhwng y drefn VSP a'r drefn diogelwch ar-lein.

| | Y drefn VSP | Y drefn diogelwch ar-lein |
|---|---|---|
| **Cwmpas** | Yn rhoi sylw i VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU yn unig. Ar hyn o bryd mae 22 llwyfan o fewn y cwmpas. | Yn cynnwys y rhan fwyaf o wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd ar gael i ddefnyddwyr yn y DU. Mae ein dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu y bydd yn rhaid i fwy na 100,000 o wasanaethau ar-lein ddilyn y rheolau newydd.[16] |
| **Hysbysu** | Mae llwyfannau'n asesu a ydynt o fewn cwmpas y drefn VSP a rhaid iddynt roi gwybod i Ofcom os ydynt yn ystyried eu bod o fewn cwmpas y drefn VSP. | Nid oes angen rhoi gwybod i Ofcom na chofrestru ag Ofcom o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. – |
| **Mathau o Gynnwys** | Mae'r drefn VSP yn cwmpasu cynnwys fideo sy'n cael ei rannu yn unig, ac nid yw'n cynnwys 'arwynebau' ar wahân fel lluniau, testun, chwiliadau, hashnodau neu sylwadau. Diffinnir fideo fel "set o ddelweddau llonydd neu symudol, neu o destun darllenadwy, neu gyfuniad o'r pethau hynny (gyda neu heb synau), sy'n eitem unigol beth bynnag fo'i hyd (ac nad yw'n gyfathrebiad masnachol clyweledol)". | Yn cwmpasu'r rhan fwyaf o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, nid dim ond cynnwys fideo, ac mae hefyd yn cwmpasu canlyniadau chwilio. Diffinnir cynnwys fel "unrhyw beth sy'n cael ei gyfathrebu drwy gyfrwng y gwasanaeth, boed hynny'n gyhoeddus neu'n breifat, gan gynnwys deunydd neu negeseuon ysgrifenedig, cyfathrebu llafar, ffotograffau, fideos, delweddau gweledol, cerddoriaeth a data o unrhyw ddisgrifiad." |
| **Niwed** | Mae'r drefn VSP yn cwmpasu Deunydd Niweidiol (gan gynnwys deunydd niweidiol perthnasol a deunydd dan gyfyngiad). Nid yw Deunydd Niweidiol Perthnasol o dan y drefn VSP yn gorgyffwrdd llawer â Chynnwys Anghyfreithlon o dan y drefn diogelwch ar-lein (ymysg yr elfennau sy'n gorgyffwrdd mae terfysgaeth a CSAM). Mae deunydd dan gyfyngiad yn cwmpasu cynnwys fideo sy'n niweidiol i bobl ifanc dan 18 oed gan gynnwys deunydd i oedolion a deunydd arall a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol. | Mae diffiniad y Ddeddf Diogelwch Ar-lein o gynnwys anghyfreithlon yn ehangach na'r diffiniad o ddeunydd niweidiol perthnasol o dan y drefn VSP, ac mae'n cwmpasu cynnwys sy'n cyfateb i amrywiaeth ehangach o droseddau (gan gynnwys, er enghraifft, troseddau sy'n ymwneud â thwyll a gwerthu arfau). Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein hefyd yn cwmpasu cynnwys sy'n niweidiol i blant, fel cynnwys prif flaenoriaeth, cynnwys blaenoriaeth, a chynnwys heb ei ddynodi sy'n niweidiol i blant. O'i gymharu â'r diffiniad o ddeunydd dan gyfyngiad ar VSP, mae cynnwys prif flaenoriaeth sy'n niweidiol i blant hefyd yn cynnwys cyfeiriadau penodol at hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta. |

[16] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/270340/10-23-cym-approach-os-implementation.pdf

| | Y drefn VSP | Y drefn diogelwch ar-lein |
|---|---|---|
| **Dyletswyddau llwyfannau** | Mae gan lwyfannau ddyletswydd i ddefnyddio mesurau priodol i ddiogelu'r cyhoedd rhag deunydd niweidiol perthnasol a phlant rhag deunydd dan gyfyngiad. Rhaid i lwyfannau hefyd weithredu'r mesurau hynny'n effeithiol. | Mae dyletswyddau o dan y drefn diogelwch ar-lein yn ehangach na dyletswyddau o dan y drefn VSP, ac maen nhw'n amrywio yn dibynnu ar y math a'r categori o wasanaeth wedi'i reoleiddio.<br><br>Yn gyffredinol, mae'n rhaid i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael ei reoleiddio gynnal asesiadau risg a lliniaru risgiau a nodir. Byddant hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau adrodd ar gynnwys ac i ddyletswyddau sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, rhyddid mynegiant a phreifatrwydd.<br><br>Yn ogystal â'r dyletswyddau uchod, bydd yn rhaid i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr o fewn y cwmpas gynnal asesiad mynediad i blant. Bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant gynnal asesiadau risg plant ac maen nhw'n ddarostyngedig i ddyletswyddau diogelwch plant.<br><br>Mae gan wasanaethau chwilio wedi'u rheoleiddio ofynion tebyg i wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, o ran bod yn rhaid iddynt gynnal asesiadau risg i nodi'r risgiau a chymryd camau i liniaru a rheoli'r risgiau hynny. Maen nhw hefyd yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau diogelwch ar adrodd ar gynnwys, gweithdrefnau cwyno, rhyddid mynegiant, preifatrwydd a chadw cofnodion.<br><br>Mae gan wasanaethau chwilio wedi'u rheoleiddio hefyd ofynion tebyg mewn cysylltiad â'r gofyniad i gynnal asesiad risg plant os yw gwasanaethau o'r fath yn debygol o gael eu defnyddio gan blant a'u bod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau diogelwch plant. Fodd bynnag, mae gwasanaethau chwilio yn wahanol i wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gan fod eu dyletswyddau diogelwch (a nodir uchod) yn gofyn am leihau'r risg o ddefnyddwyr yn dod ar draws deunydd niweidiol, yn hytrach na dyletswyddau diogelwch gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, sy'n golygu bod angen atal ac, ar adegau, tynnu deunydd niweidiol i lawr.<br><br>Mae rhai llwyfannau hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau uwch sy'n ymwneud â thryloywder, grymuso defnyddwyr, ac atal hysbysebion twyllodrus. |